Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **11 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Deddfwriaeth Ewropeaidd

Rheoliad (UE) Rhif 1143/2014
Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2016/1141

Mae'r rheoliadau gweithredu canlynol yn cael eu dirymu:

- Gweithredu Rheoliadau (UE) 2017/1454 a bennodd y fformat technegol ar gyfer adrodd yn ôl gan Aelod Wladwriaethau.
- Gweithredu Rheoliad (UE) 2016/145 a fabwysiadodd fformat y ddogfen sy'n gweithredu fel tystiolaeth ar gyfer y drwydded sy'n cael ei chyflwyno gan awdurdodau cymwys yr Aelod Wladwriaethau.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2018/968 nododd y fethodoleg ar gyfer asesiadau risg ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol.

Deddfwriaeth ddomestig

Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru rhywfaint o gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae swyddogaethau o dan Reoliad (UE) Rhif 1143/2014 wedi'u trosglwyddo i'r "awdurdod priodol, yn golygu yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, ardal forol y glannau, a rheoliad y mewnforio i, ac allforio o, y Deyrnas Unedig; Gweinidogion Cymru mewn

perthynas â Chymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Bydd trwyddedau ar gyfer rhanddirymu a phŵer i gyflwyno awdurdod yn cael eu trosglwyddo o'r Comisiwn i'r awdurdod priodol. Fodd bynnag, oherwydd natur eithriadol y ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau, bydd rhwymedigaeth i'r awdurdod priodol ymgynghori ac ystyried barn yr awdurdodau cyfrifol eraill yn ogystal â'r fforwm a'r pwyllgor arbenigol ar gyfer y DU.

Hefyd, bydd ystod o fesurau yn Rheoliad yr UE a ddaw yn gyfrifoldeb yr awdurdod priodol neu'r awdurdodau cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y rhwymedigaethau i:

- sefydlu system wyliadwriaeth
- cynnal rheolau swyddogol;
- sefydlu cynlluniau gweithredu ar gyfer llwybrau sy'n flaenoriaeth;
- cynnal mesurau rheoli neu frys;
- cynnal mesurau dileu ar fyrder; a
- cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad bob chwe mlynedd, gan gynnwys dosbarthu rhywogaethau, cynlluniau gweithredu a thrwyddedau.

Mae'r rheoliadau hyn yn cadw y meini prawf a'r egwyddorion sydd wedi'u pennu ar hyn o bryd yn Rheoliad yr UE 1143/2014 ar gyfer y broses o restru rhywogaethau a disodli swyddogaeth y Comisiwn i wneud deddfau gweithredu i ddiwygio'r rhestr hon gyda phŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i newid y rhestr honno. Gellir defnyddio'r pŵer hwn ond gyda chydsyniad yr awdurdodau perthnasol, wedi'u diffinio mewn perthynas â Chymru fel Gweinidogion Cymru.

Bydd swyddogaeth y Comisiwn wrth nodi y math o dystiolaeth sy'n dderbyniol i gefnogi asesiadau risg yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod priodol (Gweinidogion) yn gweithredu ar y cyd. Yn yr un modd, bydd nifer fechan o swyddogaethau eraill sy'n cael eu hymarfer gan y Comisiwn ar hyn o bryd, megis nodi fformat technegol ar gyfer adrodd yn ôl, yn cael eu hymgymryd ar y cyd gan yr awdurdodau cyfrifol.

Mae disgwyl i Weinidogion sy'n gweithredu ar y cyd yn yr ystyr hwn fod yn gysylltiedig â swyddogaeth weinyddol o gytuno ar y cyngor sy'n cael ei ddarparu gan bwyllgor gwyddonol y DU. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y DU.

Mae swyddogaethau Pwyllgor Rhywogaethau Estron Ymledol yr UE (pwyllgor o gynrychiolwyr Aelod-wladwriaethau) a Fforwm Gwyddonol Rhywogaethau Estron Ymledol (cynrychiolwyr y gymuned wyddonol sy'n cael eu penodi gan Aelod -wladwriaethau) yn cael eu trosgwlyddo i gyrff arbenigol y DU.

Mae'r swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

**Diben y diwygiadau**

Pwrpas y Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 yw sicrhau bod deddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol yn parhau i fod yn weithredol wedi inni ymadael â'r UE a bod yr amddiffynfeydd llym sydd wedi'u trefnu ar gyfer y rhywogaethau hyn yn cael eu cynnal. Mae'r offeryn hwn yn gwneud cywiriadau i un darn o ddeddfwriaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ddeddfwriaeth yr UE a gweithredu y ddeddfwriaeth ddirprwyedig oddi tano, ac mae hefyd yn cywiro y broblem o'i weithredu yn Neddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932. Nid oes newid i'r polisi hwn.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.